# Cwis cymorth cyntaf.



BritishRedCross | Y Groes Goch Brydeinig

Argraffwch y ddogfen hon i brofi gwybodaeth eich dysgwyr. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cwisiau rhyngweithiol ar y wefan a thracio canlyniadau dysgwyr gan ddefnyddio Fy ngrwpiau.

Mae pum cwestiwn ar gyfer pob sgil cymorth cyntaf. Argraffwch y cwis cyfan neu dudalen pob sgil fel bo angen. Mae'r atebion cywir i'w gweld ar y tudalennau olaf. Defnyddiwch y dolenni isod i fynd i'r dudalen o'ch dewis.

Pwl o asthma
Gwaedu'n drwm
Asgwrn wedi torri
Tagu
Anaf i'r pen
Trawiad ar y galon
Hypothermia
Llid yr Ymennydd
Gwenwyn/sylweddau niweidiol
Trawiadau/ffitiau/epilepsi
Adwaith alergaidd difrifol
Straeniau ac Ysigiadau
Strôc
Ddim yn ymateb ond yn anadlu
Ddim yn ymateb nac yn anadlu
Ddim yn ymateb nac yn anadlu (AED)
Atebion



CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

# Pwl o asthma

1 **Yn ystod pwl o asthma, mae rhywun yn defnyddio 'beth'... i'w helpu i anadlu?**

- ◯ Awto-chwistrellydd
- ◯ Pecyn rhew
- ◯ Mewnanadlydd

2 **Yn ystod pwl o asthma, pa un o'r datganiadau canlynol sy'n wir:**

- ◯ Mae llwybrau anadlu unigolyn yn culhau
- ◯ Mae llwybrau anadlu unigolyn yn ehangu
- ◯ Mae llwybrau anadlu unigolyn yn aros yr un maint

3 **Mae chwaer Rosie yn cael pwl o asthma. Beth ddylai Rosie ei wneud i'w helpu hi gyntaf?**

- ◯ Ei helpu hi i ddefnyddio ei mewnanadlydd
- ◯ Tawelu ei meddwl
- ◯ Ei helpu i orwedd i lawr

4 **Beth arall all rhywun ei wneud i helpu unigolyn, a allai leddfu ei bwl o asthma?**

- ◯ Ei helpu i orwedd i lawr a thawelu ei feddwl
- ◯ Rhoi bag papur brown iddo anadlu i mewn ac allan ohono
- ◯ Ei helpu i eistedd i lawr a thawelu ei feddwl
- ◯ Rhoi ergydion i'w gefn

5 **Os oes rhywun yn cael pwl o asthma, yna...**

- ◯ Bydd yn anadlu'n rhwydd
- ◯ Ni fydd ei anadlu'n newid
- ◯ Bydd yn ei chael yn anodd anadlu'n normal

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

BritishRedCross

# Gwaedu'n drwm

1 **Pan fydd rhywun yn gwaedu'n drwm, pa gam allweddol allwn ni ei gymryd i atal neu arafu'r gwaedu?**

- ◯ Rhoi pwysau ar y clwyf
- ◯ Gwneud yn siŵr bod yr anaf yn cael ei gynnal
- ◯ Rhoi pecyn rhew ar y clwyf

2 **Os oes rhywun yn gwaedu'n drwm o glwyf, a ddylen ni ffonio 999?**

- ◯ Dylen - fe ddylen ni ffonio 999, ond dim ond ar ôl aros am 15 munud i weld a yw'r gwaedu'n stopio
- ◯ Na, bydd y gwaedu'n stopio yn y diwedd
- ◯ Dylen - fe ddylen ni ffonio 999 cyn gynted â phosib, neu ofyn i rywun arall wneud hynny

3 **Pan fyddwn yn rhoi pwysau ar glwyf sy'n gwaedu, rydyn ni'n gweithredu fel...?**

- ◯ Plwg
- ◯ Pibell
- ◯ Draen

4 **Mae ffrind Lee wedi torri ei law wrth baratoi cinio, ac mae'n gwaedu'n drwm. Beth ddylai Lee geisio ei wneud yn gyntaf?**

- ◯ Glanhau'r clwyf i atal haint
- ◯ Ceisio atal neu arafu'r gwaedu
- ◯ Ceisio tawelu meddwl ei ffrind

5 **Pa un o'r eitemau bob dydd isod fyddai'n fwyaf effeithiol ar gyfer rhoi pwysau ar glwyf sy'n gwaedu?**

- ◯ Rholbren
- ◯ Padell ffrio
- ◯ Cling ffilm
- ◯ Lliain sychu llestri

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

BritishRedCross

# Asgwrn wedi torri

## 1 Mae Bea gartref, pan mae'n clywed ei mam yn syrthio i lawr y grisiau. Mae ei mam mewn llawer o boen. Beth arall allai ddweud wrth Bea ei bod wedi torri asgwrn?

- ◯ Cleisiau ar y fraich neu'r goes
- ◯ Y fraich neu'r goes wedi chwyddo
- ◯ Pob un o'r rhain
- ◯ Mae'r fraich neu'r goes wedi'i hystumio

## 2 Os oes rhywun wedi torri asgwrn, pa un o'r datganiadau canlynol sy'n wir?

- ◯ Os na fyddwn yn cynnal y fraich neu'r goes, gall achosi mwy o anaf a phoen
- ◯ Os na fyddwn yn cynnal y fraich neu'r goes, gall achosi mwy o anaf a phoen
- ◯ Os na fyddwn yn cynnal y fraich neu'r goes, bydd yr unigolyn yn gallu symud y fraich neu'r goes yn haws a bydd yn lleihau'r boen
- ◯ Does dim ots os na fyddwn yn cynnal y fraich neu'r goes. Bydd yr asgwrn yn gwella'n naturiol ar ei ben ei hun

## 3 Os oes rhywun wedi torri asgwrn, beth yw'r cam allweddol y gallwn ni ei gymryd i'w helpu?

- ◯ Rhoi'r anaf mewn sblint
- ◯ Gwneud i'r unigolyn aros yn llonydd
- ◯ Cynnal yr anaf a'i gadw'n llonydd

## 4 Pa rai o'r pethau hyn allen ni eu defnyddio i gynnal asgwrn sydd wedi torri?

- ◯ Llaw rhywun
- ◯ Pob un o'r rhain
- ◯ Dillad
- ◯ Clustog

## 5 Mae Frankie yn helpu rhywun y mae hi'n amau sydd wedi torri ei fraich. Mae hi wedi cynnal yr anaf. Beth ddylai hi ei wneud nesaf...

- ◯ Peidio â gofyn am gymorth meddygol, bydd yr asgwrn yn gwella ar ei ben ei hun
- ◯ Dim ond gofyn am gymorth meddygol os bydd yn boen yn gwaethygu
- ◯ Gadael i bethau am awr yna gofyn am gymorth meddygol



© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

BritishRedCross

◯ Gofyn am gymorth meddygol ar unwaith

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

# Llosgi

1. **Mae Mo yn helpu ei nain i wneud cawl, ac mae'r stoc berwedig yn tywallt dros ei braich. Mae'n gwybod bod rhaid iddo oeri'r llosg yn gyflym. Sut mae hyn yn ei helpu?**

- ◯ Mae'n lleihau'r boen a'r risg o greithio
- ◯ Mae'n atal haint
- ◯ Mae'n atal rhagor o anafiadau

2. **Ar ôl i ni oeri llosg, pa eitem bob dydd allwn ni ei defnyddio i'w orchuddio?**

- ◯ Ffoil cegin
- ◯ Cling ffilm
- ◯ Gwlân cotwm
- ◯ Papur cegin

3. **Mae Sasha'n gwersylla gyda ffrind, ac mae'n llosgi gyda'i siocled poeth. Does dim tap gerllaw. Pa un o'r canlynol allen nhw eu defnyddio ar unwaith i oeri'r llosg?**

- ◯ Diodydd pop
- ◯ Coffi wedi oeri
- ◯ Dŵr golchi llestri budr
- ◯ Dim un o'r rhain

4. **Os oes rhywun wedi llosgi, beth yw'r cam allweddol i'w gymryd i'w helpu?**

- ◯ Gorchuddio'r llosg
- ◯ Oeri'r llosg
- ◯ Glanhau'r llosg

5. **Mae chwaer Jay wedi llosgi ac mae'n rhoi'r llosg o dan ddŵr oer am gyfnod byr iawn yn unig.** Am faint o amser ddylai hi ddal llosg o dan ddŵr oer?

- ◯ O leiaf ugain munud
- ◯ O leiaf ddeg eiliad
- ◯ O leiaf un funud



© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

BritishRedCross

# Tagu

1. **Os oes rhywun yn tagu, rydyn ni'n rhoi ergydion i'r cefn, rhwng yr ysgwyddau. Beth mae hyn yn ei wneud?**
   - ◯ Mae'n gwneud yr unigolyn yn sâl, sy'n creu pwysedd ac yn gwthio'r gwrthrych allan o'i lwybr anadlu
   - ◯ Mae'n gwneud i'r unigolyn lyncu aer, sy'n creu pwysedd ac yn gwthio'r gwrthrych i lawr ei lwybr anadlu
   - ◯ Mae'n creu dirgryniad a phwysedd, sy'n gwthio'r gwrthrych allan o'r llwybr anadlu

2. **Mae Tasha yn sylweddoli bod ei thad yn tagu, beth yw'r cam allweddol y dylai hi ei gymryd i'w helpu?**
   - ◯ Rhoi ergydion i'w gefn ac, os oes angen, gwthiadau abdomenol
   - ◯ Rhoi diod iddo
   - ◯ Ei wneud yn sâl

3. **Os oes rhywun yn tagu, beth mae angen i ni ei helpu i'w wneud?**
   - ◯ Oeri
   - ◯ Dal ei wynt nes bydd help yn cyrraedd
   - ◯ Anadlu'n normal eto
   - ◯ Rhoi'r gorau i banicio

4. **Pa un o'r canlynol sy'n wir os bydd rhywun yn tagu?**
   - ◯ Bydd yn gallu siarad a pheswch ond ni fydd yn gallu anadlu
   - ◯ Bydd yn gallu anadlu ond ddim yn gallu siarad na phesychu
   - ◯ Bydd yn gallu anadlu ond ddim yn gallu siarad na phesychu
   - ◯ Ni fydd yn gallu siarad, peswch nac anadlu

5. **Os yw unigolyn yn tagu, pa un o'r canlynol ddylen ni ei ddefnyddio i roi ergydion i'r cefn?**
   - ◯ Sawdl ein llaw
   - ◯ Ein dwrn
   - ◯ Gwrthrych caled

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

BritishRedCross

# Anaf i'r pen

1 **Pan fydd rhywun yn cael anaf i'w ben, pa rai o'r eitemau hyn y gellir eu defnyddio i helpu i leihau'r chwydd a'r boen?**

- ◯ Bag o lysiau wedi'u rhewi
- ◯ Potel blastig fawr, hyblyg o ddiod pop neu lefrith o'r oergell
- ◯ Pob un o'r rhain
- ◯ Pecyn rhew

2 **Os bydd rhywun sydd wedi cael anaf i'w ben yn dechrau teimlo'n sâl, yn benysgafn neu'n ddryslyd, beth ddylen ni ei wneud?**

- ◯ Gwneud yn siŵr ei fod yn chwilio am sylw meddygol
- ◯ Gwneud yn siŵr ei fod yn yfed llawer o ddŵr
- ◯ Gwneud yn siŵr ei fod yn dal i orffwys

3 **Ar ôl rhoi rhywbeth oer ar anaf i'r pen, beth ddylen ni ofyn i'r unigolyn ei wneud?**

- ◯ Mynd yn syth i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys
- ◯ Cymryd poenladdwyr
- ◯ Gorffwys a chwilio am sylw meddygol os oes angen

4 **Beth yw'r cam allweddol i'w gymryd os oes rhywun wedi cael anaf i'r pen?**

- ◯ Rhoi rhywbeth oer ar yr anaf
- ◯ Helpu'r unigolyn i orwedd i lawr
- ◯ Rhoi poenladdwr i'r unigolyn

5 **Mae ffrind Jo wedi taro ei ben, ac mae angen i Jo ei helpu. Beth yw'r peth allweddol y mae angen i Jo ei wneud?**

- ◯ Helpu'r unigolyn i symud o gwmpas eto cyn gynted â phosib
- ◯ Atal yr unigolyn rhag panicio
- ◯ Lleihau'r chwydd a'r boen o amgylch yr anaf

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

# Trawiad ar y galon

1 **Mae helpu rhywun i eistedd ar y llawr yn gam y gallwn ei gymryd pan fydd rhywun yn cael trawiad ar y galon. Sut mae hyn yn ei helpu?**

- ◯ Bydd yn ei alluogi i anadlu'n normal
- ◯ Bydd yn ei atal rhag llewygu
- ◯ Mae'n lleddfu'r straen ar ei galon
- ◯ Bydd yn ei atal rhag cael cramp yn ei goesau

2 **Dim ond poen yn ei frest fyddai unigolyn sy'n cael trawiad ar y galon yn ei deimlo: cywir neu anghywir?**

- ◯ Cywir
- ◯ Anghywir

3 **Os yw rhywun yn cael trawiad ar y galon, y disgrifiad cyffredin o'r boen yw...**

- ◯ Poen amhendant
- ◯ Poen ysbeidiol
- ◯ Poen sy'n pasio
- ◯ Poen parhaus

4 **Mae cymydog Bianca yn cael poen parhaus yn ei frest ac mae hi'n meddwl ei fod yn cael trawiad ar y galon. Beth yw'r cam allweddol y dylai Bianca ei gymryd?**

- ◯ Ffonio 999
- ◯ Ffonio fferyllfa
- ◯ Ffonio'r meddyg teulu

5 **Mae Raj yn meddwl bod rhywun yn cael trawiad ar y galon, felly mae wedi ffonio 999. Beth arall all Raj ei wneud wrth aros am help i gyrraedd?**

- ◯ Helpu'r unigolyn i eistedd yn gyfforddus a rhoi rhywbeth iddo ei yfed
- ◯ Helpu'r unigolyn i eistedd yn gyfforddus a pharhau i dawelu ei feddwl
- ◯ Helpu'r unigolyn i eistedd yn gyfforddus ac yna ei adael ar ei ben ei hun i orffwyso
- ◯ Helpu'r unigolyn i orwedd i lawr a'i adael ar ei ben ei hun i orffwyso

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

BritishRedCross

# Hypothermia

1 **Gall unigolyn â hypothermia fod yn oer iawn, yn crynu ac yn welw. Sut arall y gellid ei ddisgrifio?**

- ◯ Dymunol
- ◯ Blin
- ◯ Dryslyd
- ◯ Pwyllog

2 **Os oes gan rywun hypothermia, sut dylen ni helpu i'w gynhesu?**

- ◯ Rhoi'r unigolyn mewn bath poeth
- ◯ Rhoi potel ddŵr poeth iddo
- ◯ Ei lapio mewn blanced neu ddillad ychwanegol
- ◯ Ei roi wrth ymyl tân agored

3 **Os oes gan unigolyn â hypothermia ddillad gwlyb amdano, beth ddylen ni ei wneud?**

- ◯ Tynnu ei holl ddillad gwlyb a'i lapio mewn beth bynnag arall sydd ar gael
- ◯ Ei adael yn ei ddillad gwlyb a'i lapio mewn blanced neu ddillad eraill
- ◯ Tynnu rhywfaint o'i ddillad gwlyb a rhoi rhywfaint o'n dillad ni iddo

4 **Os oes gan rywun hypothermia, mae rhoi alcohol iddo yn ffordd dda o helpu i'w gynhesu: cywir neu anghywir?**

- ◯ Anghywir
- ◯ Cywir

5 **Mae Tom yn sylweddoli bod gan ei ffrind hypothermia ac mae'n ffonio 999. Beth yw'r cam allweddol y gall Tom ei gymryd i'w helpu?**

- ◯ Ei helpu i orwedd i lawr
- ◯ Ei gynhesu
- ◯ Ei helpu i godi a symud



© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

BritishRedCross

# Llid yr Ymennydd

**1** **Os oes gan rywun lid yr ymennydd, bydd ei dymheredd yn...**

- ◯ Is nag arfer
- ◯ Uwch nag arfer
- ◯ Ddim gwahanol

**2** **Mae ffrind Olivia yn teimlo'n sâl ac mae hi'n meddwl y gallai fod ganddo lid yr ymennydd. Beth mae'n arbennig o sensitif iddo?**

- ◯ Golau
- ◯ Sain
- ◯ Cyffyrddiad
- ◯ Arogl

**3** **Pam ei bod yn bwysig cael help ar unwaith os oes gan rywun lid yr ymennydd?**

- ◯ Nid yw symptomau llid yr ymennydd yn para'n hir
- ◯ Mae'r unigolyn yn heintus a gall ledaenu'r haint
- ◯ Mae angen triniaeth ar unwaith ar yr unigolyn er mwyn atal niwed parhaol

**4** **Mae brawd iau Tara yn dangos arwyddion o lid yr ymennydd. Beth yw'r cam allweddol i'w gymryd?**

- ◯ Ffonio 999
- ◯ Ffonio fferyllfa
- ◯ Gwneud apwyntiad i weld meddyg

**5** **Os oes gan rywun lid yr ymennydd, pa un o'r datganiadau canlynol sy'n wir?**

- ◯ Efallai mai dim ond rhai o'r arwyddion a'r symptomau y bydd unigolyn â llid yr ymennydd yn eu dangos
- ◯ Rhaid i'r unigolyn ddangos yr holl arwyddion a'r symptomau i fod â llid yr ymennydd



© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

BritishRedCross

# Gwenwyn/sylweddau niweidiol

## 1 Pan fydd rhywun wedi llyncu rhywbeth niweidiol, pam mae cael gwybod beth mae unigolyn wedi'i gymryd, pryd mae wedi'i gymryd a faint mae wedi'i gymryd mor bwysig?

- ◯ Er mwyn i'r unigolyn gael y driniaeth feddygol iawn
- ◯ Er mwyn rhoi'r sylwedd o'r neilltu fel na fyddai neb arall yn ei lyncu
- ◯ Er mwyn rhoi gwybod i'r heddlu

## 2 Pan fydd rhywun wedi llyncu rhywbeth niweidiol, mae angen i ni gael help yn gyflym. A ddylen ni...

- ◯ Ffonio 999 neu ofyn i rywun arall wneud hynny
- ◯ Mynd i fferyllfa
- ◯ Ffonio'r meddyg teulu

## 3 Os yw rhywun wedi llyncu rhywbeth niweidiol, pa rai o'r cwestiynau canlynol y mae angen i ni eu hateb

- ◯ Pryd? Pam? Faint?
- ◯ Pryd? Pam? Ble?
- ◯ Beth? Pryd? Pam?
- ◯ Beth? Pryd? Faint?

## 4 Mae brawd iau Bobby wedi llyncu rhywbeth niweidiol. Pa gam allweddol ddylai Bobby ei gymryd?

- ◯ Darganfod beth mae wedi'i gymryd, pryd a faint
- ◯ Meddwl am beth allai fod wedi'i lyncu
- ◯ Ei gadw'n effro er mwyn iddo allu siarad â'r gweithiwr ambiwlans

## 5 Mae ffrind Miles wedi llyncu rhywbeth niweidiol. Ar wahân i ofyn iddo, beth arall allai ei helpu i gael rhagor o wybodaeth?

- ◯ Galwadau mae'n bosib ei fod wedi'u gwneud yn ddiweddar
- ◯ Gwefannau y gallai fod wedi bod yn pori arnyn nhw
- ◯ Hunluniau y gallai ei ffrind fod wedi'u tynnu
- ◯ Pecynnau wrth ymyl ei ffrind neu yn y tŷ

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

BritishRedCross

# Trawiad/ffit/epilepsi

## 1 Ar ôl i drawiad neu ffit basio, beth ddylid ei wneud?

- ◯ Gadael yr unigolyn ar ei gefn
- ◯ Rholio'r unigolyn ar ei ochr
- ◯ Peidio â chyffwrdd yr unigolyn o gwbl
- ◯ Rholio'r unigolyn ar ei flaen

## 2 Ddylen ni atal rhywun sy'n cael trawiad neu ffit?

- ◯ Dylem - ei atal am 5 munud ac wedyn gollwng gafael
- ◯ Na - peidiwch â'i atal
- ◯ Dylem - ei atal nes bydd y trawiad neu'r ffit wedi pasio

## 3 Mae ffrind Sajid yn cael trawiad/ffit ac mae ambiwlans ar y ffordd. Beth all Sajid ei wneud i'w helpu?

- ◯ Gwneud yn siŵr ei fod yn ddiogel ac atal anafiadau
- ◯ Ei helpu i gymryd ei feddyginiaeth
- ◯ Creu fideo er mwyn dangos iddo beth ddigwyddodd yn nes ymlaen
- ◯ Ei adael ar ei ben ei hun a rhoi preifatrwydd iddo

## 4 Yn ystod trawiad/ffit, efallai y bydd unigolyn yn symud mewn ffordd aflonydd ac y bydd ewynboer o amgylch ei geg. Gellir disgrifio ei gorff fel...

- ◯ Ymestynnol
- ◯ Ystwyth
- ◯ Anystwyth
- ◯ Llipa

## 5 Os yw rhywun yn cael trawiad/ffit, dylen ni roi rhywbeth yn ei geg i'w atal rhag brathu ei dafod: cywir neu anghywir?

- ◯ Cywir
- ◯ Anghywir

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

BritishRedCross

# Adwaith alergaidd difrifol

## 1 Mae gan Anna alergedd difrifol ac mae ganddi awto-chwistrellydd. Dewiswch y datganiad cywir.

- ◯ Dim ond Anna sy’n gallu defnyddio ei awto-chwistrellydd pan fydd yn cael adwaith alergaidd difrifol
- ◯ Gall unrhyw un helpu Anna i ddefnyddio ei awto-chwistrellydd pan fydd yn cael adwaith alergaidd difrifol
- ◯ Rhaid i bobl gael hyfforddiant penodol i helpu Anna i ddefnyddio ei awto-chwistrellydd pan fydd yn cael adwaith alergaidd difrifol

## 2 Pa rai o’r pethau hyn sy’n achosi adweithiau alergaidd difrifol yn gyffredinol?

- ◯ Cnau daear a chnau eraill
- ◯ Pob un o’r rhain
- ◯ Pysgod cregyn, fel corgimychiaid neu gregyn gleision
- ◯ Latecs (math o rwber), er enghraifft menig rwber

## 3 Sut gallai croen rhywun newid yn ystod adwaith alergaidd?

- ◯ Gall ddechrau cosi a datblygu brech goch a blotiog
- ◯ Gall ddechrau cosi a mynd yn welw iawn
- ◯ Gall ddechrau cosi a chleisio’n hawdd
- ◯ Gall ddechrau cosi a mynd yn oer a llaith

## 4 Pan fydd rhywun yn cael adwaith alergaidd difrifol, cael help yw’r peth allweddol i’w wneud. Sut dylen ni wneud hyn?

- ◯ Ffonio ffrind
- ◯ Ffonio 999
- ◯ Ffonio’r meddyg teulu

## 5 Os yw adwaith alergaidd yn ddifrifol iawn, efallai na fydd unigolyn yn...

- ◯ Gallu blasu
- ◯ Gallu anadlu
- ◯ Gallu clywed
- ◯ Gallu gweld



© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae’r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi’i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a’r Alban (SCO37738).

BritishRedCross

# Straeniau ac Ysigiadau

## 1 Wrth helpu rhywun sydd wedi cael straen neu ysigiad, ble ddylen ni roi'r pecyn rhew neu'r bag o lysiau wedi'u rhewi?

- ◯ Wedi'i lapio mewn deunydd ac yn agos at yr anaf, ond ddim yn ei gyffwrdd
- ◯ Heb ei lapio ac yn agos at yr anaf, ond ddim yn ei gyffwrdd
- ◯ Wedi'i lapio mewn deunydd ac yn union ar yr anaf
- ◯ Heb ei lapio ac yn union ar yr anaf

## 2 Mae brawd Yolanda wedi syrthio a throi ei ffêr, beth yw'r cam allweddol y gall hi ei gymryd i helpu?

- ◯ Rhoi rhywbeth oer ar yr anaf
- ◯ Rhoi rhywbeth poeth ac oer ar yr anaf am yn ail
- ◯ Rhoi rhywbeth poeth ar yr anaf

## 3 Mae Nic wedi cael straen neu ysigiad ac mae'n rhoi rhywbeth oer ar yr anaf.

- ◯ Bydd yn lleihau'r risg o greithio
- ◯ Bydd yn helpu i gadw'r cymal yn llonydd
- ◯ Bydd yn lleihau'r chwydd a'r boen
- ◯ Bydd yn tawelu'r unigolyn

## 4 Pan fydd rhywun wedi cael straen neu ysigiad, gall liniaru'r boen drwy gerdded am 10 munud: cywir neu anghywir?

- ◯ Cywir
- ◯ Anghywir

## 5 Beth yw'r arwyddion i chwilio amdanyn nhw os ydyn ni'n meddwl bod rhywun wedi cael straen neu ysigiad?

- ◯ Cleisiau
- ◯ Chwydd
- ◯ Poen
- ◯ Pob un o'r rhain

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

BritishRedCross

# Strôc

1. **Ystyr yr A yn F.A.S.T yw 'Arms', sef Breichiau. Gan ddefnyddio'r prawf hwn, os yw unigolyn wedi cael strôc...**
   - ◯ Bydd yn gallu codi'r ddwy fraich yr un pryd
   - ◯ Bydd yn gallu codi un fraich ar y tro
   - ◯ Bydd yn gallu codi un fraich yn unig
   - ◯ Ni fydd yn gallu codi'r naill fraich na'r llall

2. **Mae menyw yn y safle bws yn ymddwyn yn rhyfedd ac mae Bex yn meddwl y gallai fod yn cael strôc. Mae Bex yn gwybod bod angen cynnal prawf F.A.S.T. Beth yw ystyr hyn?**
   - ◯ Wyneb (Face) Breichiau (Arms) Lleferydd (Speech) Amser (Time)
   - ◯ Wyneb (Face) Breichiau (Arms) Golwg (Sight) Amser (Time)
   - ◯ Traed (Feet) Breichiau (Arms) Lleferydd (Speech) Amser (Time)
   - ◯ Bysedd (Fingers) Breichiau (Arms) Lleferydd (Speech) Amser (Time)

3. **Yn y prawf F.A.S.T, mae'r S yn sefyll am Speech, sef Lleferydd. Beth mae angen i ni sylwi arno ynghylch lleferydd rhywun?**
   - ◯ Efallai y bydd yn anodd ei ddeall yn siarad
   - ◯ Bydd yn hawdd ei ddeall yn siarad
   - ◯ Ni fydd ei leferydd wedi newid

4. **Mae rhywun yn cael strôc, beth yw'r cam allweddol?**
   - ◯ Ffonio 999
   - ◯ Gwneud apwyntiad i weld meddyg
   - ◯ Mynd i fferyllfa

5. **Pa rai o'r datganiadau canlynol am strôc sy'n wir?**
   - ◯ Gall strôc effeithio ar ddwy ochr y corff ar yr un pryd
   - ◯ Mae strôc yn effeithio ar ochr chwith y corff yn unig
   - ◯ Mae strôc yn effeithio ar ochr dde'r corff yn unig
   - ◯ Gall strôc effeithio ar y naill ochr i'r corff a'r llall

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

BritishRedCross

# Ddim yn ymateb ond yn anadlu

## 1 Ar ôl i'r sawl nad yw'n ymateb ond sy'n anadlu gael ei symud ar ei ochr, fe ddylen ni... beth?

- ◯ Eistedd gyda'r unigolyn, ond peidio â'i gyffwrdd eto. Os yw'n symud, mae'n golygu ei fod yn dechrau deffro
- ◯ Aros gyda'r unigolyn a gwneud yn siŵr bod ei ben wedi gwyro'n ôl er mwyn iddo allu dal ati i anadlu'n normal
- ◯ Gadael yr unigolyn ar ei ben ei hun nawr ei fod yn gyfforddus, bydd yn deffro cyn bo hir

## 2 Os nad yw rhywun yn ymateb, pa dri synnwyr allwn ni eu defnyddio i ddweud a yw'n anadlu?

- ◯ Golwg, arogl, sain
- ◯ Golwg, sain, cyffyrddiad
- ◯ Sain, arogl, cyffyrddiad
- ◯ Arogl, cyffyrddiad, blas

## 3 Os nad yw rhywun yn ymateb ond mae'n anadlu, beth yw'r cam allweddol y gallwn ni ei gymryd i'w helpu?

- ◯ Symud yr unigolyn ar ei gefn a gwyro ei ben yn ôl
- ◯ Symud yr unigolyn ar ei flaen a gwyro ei ben i'r ochr
- ◯ Symud yr unigolyn ar ei ochr a gwyro ei ben yn ôl

## 4 Pam ei bod yn bwysig symud rhywun nad yw'n ymateb ond sy'n anadlu ar ei ochr?

- ◯ Mae'n helpu i gadw ei lwybr anadlu'n glir ac yn caniatáu iddo barhau i anadlu'n normal
- ◯ Gallai symud yr unigolyn helpu i'w ddeffro
- ◯ Gallwn chwilio am anafiadau ar ei gorff


© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

5

**Un bore mae Casey yn dod o hyd i'w chwaer hŷn ac mae'n meddwl nad yw hi'n ymateb ond yn anadlu. Ar wahân i alw am gymorth, beth yw'r flaenoriaeth yn y sefyllfa hon?**

- ◯ Ei helpu i barhau i anadlu'n normal nes bydd help yn cyrraedd
- ◯ Galw am rywun a gofyn iddo helpu
- ◯ Ceisio cael gwybodaeth am beth sydd wedi digwydd iddi

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

# Ddim yn ymateb nac yn anadlu

## 1 Os nad yw rhywun yn ymateb ac os nad yw'n anadlu, am ba mor hir ddylen ni wasgu ei frest?

- ◯ Nes bydd eich breichiau'n blino
- ◯ Nes byddwch wedi gwasgu'r frest 100 o weithiau
- ◯ Nes bydd help yn cyrraedd a rhywun arall yn cymryd drosodd

## 2 Pam ei bod yn bwysig dechrau gwasgu'r frest mor gyflym â phosib, os nad yw rhywun yn ymateb nac yn anadlu?

- ◯ Ni all ymennydd unigolyn na'i organau hanfodol eraill oroesi'n hir heb gyflenwad gwaed
- ◯ Efallai y bydd yn ei ddeffro, a bydd yn dechrau anadlu eto
- ◯ Mae'r weithred rythmig yn gallu rhoi sicrwydd i rywun sydd angen help

## 3 Nid yw rhywun yn ymateb nac yn anadlu. Fe ddylen ni ffonio 999, a... beth?

- ◯ Rhoi crynodeb sydyn i'r sawl sy'n delio â'r alwad o'r hyn sydd wedi digwydd a rhoi'r ffôn i lawr ar unwaith
- ◯ Ateb cwestiynau'r sawl sy'n delio â'r alwad mor llawn â phosib ac aros ar y ffôn nes bydd help yn cyrraedd
- ◯ Rhoi cymaint o wybodaeth â phosib i'r sawl sy'n delio â'r alwad a rhoi'r ffôn i lawr

## 4 Beth yw'r cam allweddol i'w gymryd os na fydd rhywun yn ymateb nac yn anadlu?

- ◯ Dechrau gwasgu'r frest
- ◯ Codi ei draed yn uwch na'i ben
- ◯ Ceisio anadlu i mewn i'w geg

## 5 Mae taid Vi wedi cwympo a dydyn nhw ddim yn meddwl ei fod yn anadlu. Maen nhw'n gallu dweud hyn oherwydd dydy ei 'beth' ddim yn symud?

- ◯ Ei stumog a'i ysgwyddau
- ◯ Ei frest a'i stumog
- ◯ Ei geg a'i fochau

CYMORTH CYNTAF

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

Nerth caredigrwydd

# Ddim yn ymateb nac yn anadlu (AED)

1 **Mae Billie allan yn siopa gyda'u mam ac maen nhw'n dod ar draws rhywun sydd wedi cwympo ar y llawr. Nid yw'r unigolyn yn ymateb pan fydd Billie yn ysgwyd ei ysgwyddau ac yn galw arno. Beth sydd angen iddyn nhw ei wneud yn gyntaf?**

- ◯ Edrych i weld a yw'n anadlu drwy wyro eu pen o flaen ei geg i deimlo a yw'n anadlu
- ◯ Edrych i weld a yw'n anadlu drwy roi eu pen ar ei frest i deimlo a yw'n symud
- ◯ Edrych i weld a yw'n anadlu drwy wyro ei ben yn ôl ac edrych, gwrando a theimlo am anadl

2 **Os nad yw rhywun yn ymateb nac yn anadlu, pa gamau allweddol y gallwn eu cymryd i'w helpu tra bydd rhywun yn nôl AED?**

- ◯ Ei ddiogelu rhag anaf drwy roi rhywbeth o dan ei ben a chlirio'r gofod o'i amgylch
- ◯ Symud yr unigolyn ar ei ochr a gwyro ei ben yn ôl
- ◯ Dechrau gwasgu ei frest

3 **Os oes angen i ni ddefnyddio AED, beth yw'r peth allweddol i'w gofio?**

- ◯ Dilyn y cyfarwyddiadau llais
- ◯ Darllen y llyfryn cyfarwyddiadau cyn defnyddio'r AED
- ◯ Aros am rywun sydd wedi cael hyfforddiant meddygol i roi cyfarwyddiadau i chi ar sut i'w ddefnyddio

4 **Pa un o'r datganiadau canlynol am AEDs sy'n wir?**

- ◯ Mae AEDs ar gael i unrhyw un eu defnyddio mewn llawer o fannau cyhoeddus, fel gorsafoedd, campfeydd a chanolfannau siopa
- ◯ Mae AEDs yn cael eu cadw dan glo at ddefnydd staff yn unig mewn mannau cyhoeddus, fel gorsafoedd, campfeydd a chanolfannau siopa
- ◯ Mae AEDs ar gael mewn mannau cyhoeddus, fel gorsafoedd, campfeydd a chanolfannau siopa a dim ond pobl sydd wedi cael hyfforddiant meddygol sy'n cael eu defnyddio

© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

BritishRedCross

## 5 Pan fyddwch chi'n defnyddio AED, a yw'n...?

- ◯ Rhoi sioc i ysgyfaint unigolyn er mwyn i'w galon ddod yn ôl i rythm normal
- ◯ Rhoi sioc i'r galon er mwyn iddi ddod yn ôl i rythm normal
- ◯ Tylino'r galon yn ôl i rythm normal



© Y Groes Goch Brydeinig 2019. Pob llun © Y Groes Goch Brydeinig 2019 oni nodir yn wahanol
Mae'r adnodd hwn a deunyddiau addysgol eraill am ddim ar gael yn www.redcross.org.uk/education
Mae Cymdeithas y Groes Goch Brydeinig yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (220949) a'r Alban (SCO37738).

BritishRedCross

# Atebion

## Pwl o asthma

1. c)
2. a)
3. a)
4. c)
5. c)

## Gwaedu'n drwm

1. a)
2. c)
3. a)
4. b)
5. d)

## Asgwrn wedi torri

1. c)
2. a)
3. c)
4. b)
5. d)

## Llosgi

1. a)
2. b)
3. a)
4. b)
5. a)

## Tagu

1. c)
2. a)
3. c)
4. d)
5. a)

## Anaf i'r pen

1. c)
2. a)
3. c)
4. a)
5. c)

## Trawiad ar y galon

1. c)
2. d)
3. a)
4. a)
5. b)

## Hypothermia

1. c)
2. d)
3. a)
4. a)
5. b)

## Llid yr Ymennydd

1. b)
2. a)
3. c)
4. a)
5. a)

FIRST AID

© British Red Cross 2019. All images © British Red Cross 2015 unless otherwise stated.
This resource and other free educational materials are available at www.redcross.org.uk/education
The British Red Cross Society is a charity registered in England and Wales (220949) and Scotland (SC037738).

The power of kindness

## Gwenwyn/sylwedd au niweidiol

1 a)
2 a)
3 d)
4 a)
5 d)

## Adwaith alergaidd difrifol

1 b)
2 b)
3 a)
4 b)
5 b)

## Ddim yn ymateb ond yn anadlu

1 b)
2 b)
3 c)
4 a)
5 a)

## Trawiadau/ffitiau/ epilepsi

1 b)
2 b)
3 a)
4 c)
5 b)

## Straeniau ac Ysigiadau

1 c)
2 a)
3 c)
4 a)
5 d)

## Ddim yn ymateb nac yn anadlu

1 c)
2 a)
3 b)
4 a)
5 b)



## Strôc

1 c)
2 a)
3 a)
4 a)
5 d)



## Ddim yn ymateb nac yn anadlu (AED)

1 c)
2 b)
3 a)
4 a)
5 b)

FIRST AID

© British Red Cross 2019. All images © British Red Cross 2015 unless otherwise stated.
This resource and other free educational materials are available at www.redcross.org.uk/education
The British Red Cross Society is a charity registered in England and Wales (220949) and Scotland (SC037738).

The power of kindness

© British Red Cross 2019. All images © British Red Cross 2015 unless otherwise stated.
This resource and other free educational materials are available at www.redcross.org.uk/education
The British Red Cross Society is a charity registered in England and Wales (220949) and Scotland (SCO37738).

The power of kindness